Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1027

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

Cymhwyso

5. Mae trafodiad wedi ei eithrio gan y rheoliad hwn os yw'n drafodiad a bennir yn rheoliad 3 y rhoddir effaith iddo yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo cyn 10 Hydref 2022 ac—

(a) pan geir unrhyw amrywiad i'r contract, neu pan aseinir hawliau o dan y contract, ar neu ar ôl 10 Hydref 2022;

(b) pan roddir effaith i'r trafodiad o ganlyniad i arfer unrhyw opsiwn, hawl rhagbrynu neu hawl debyg ar neu ar ôl 10 Hydref 2022; neu

(c) pan geir, ar neu ar ôl 10 Hydref 2022, aseiniad, is-werthiant neu drafodiad arall yn ymwneud â'r cyfan neu ran o bwnc y contract, y caiff person heblaw'r prynwr o dan y contract hawl i alw am drosglwyddiad o ganlyniad iddo.